CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, **dydd Mawrth, 15 Medi 2026**

Yn bresennol: Y Cynghorydd Gwilym O. Jones – Cadeirydd
Cynghorwyr: W. Victor Owen, Evan Wyn Robertson, Einir Thomas, Gareth Thomas a Dyfed Williams.
Hefyd yn bresennol: Mai Owen – Clerc / SAC , Cynghorydd Sir Jon Paul Taylor a Mrs Rebecca Leese.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Celfyn Furlong, Siân Enfys Jones, Gordon Owen a Sharon Parry.
2. **Datganiad o Ddiddordeb** – datganiadau o fuddiant personol:
   Cyng. Gwilym O. Jones 4.2 Neuadd Bentref Caergeiliog.
   Cyng. W. Victor Owen yn datgan buddiant rhagfarnllyd yn eitem 5.2 y cais cynllunio.

   Cyn symud ymlaen cytunwyd i ystyried cais gan Mrs Rebecca Leese am sedd ar y Cyngor Cymuned. Gan ei bod wedi dod draw i'r neuadd beth bynnag gofynwyd iddi sefyll allan tra bod y mater yn cael ei ystyried. Datganodd Cyng. Gareth Thomas ddiddordeb rhagfarnol yn y broses a gadawodd y cyfarfod heb gymryd unrhyw ran yn y drafodaeth. Bu'r sedd yn wag ers peth amser ac roedd wedi ei hysbysebu eisoes a cadarnhaodd y clerc ei bod yn ymgeisydd cymwys. Cytunwyd yn unfrydol i'w gwahodd i ymuno â'r Cyngor. Fe lofnodwyd y datganiadau perthnasol ac fe ymunodd am weddill y cyfarfod.

3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
   Derbyniwyd cofnodion 21 Gorffennaf 2026 fel rhai cywir. (cyn. Cyng. E. W. Thomas, eilio Cyng. W.V. Owen).

4. **Materion yn codi o'r cofnodion.**

4.1 Cae Chwarae: Roedd tîm cynnal a chadw Cyngor Tref Caergybi wedi ymweld â'r safle a byddent yn paratoi dyfynbris unwaith y byddai prisiau'r rhannau wrth law.

4.2 Neuadd y Pentref:-. Roedd y ffenestri newydd wedi ei archebu ond broblem gyda gosod y ffenestr flaen gan fod y prif geblau trydan yn dod i mewn i'r adeilad trwy'r ffrâm y ffenestr. Roedd Scottish Power wedi cynghori'r clerc i gysylltu â thrydanwr cymwys am adroddiad ac fe wnaethpwyd hynny.
Roedd BLB Plumbing and Heating i fod i drwsio'r toiled merched a darparu tystysgrif nwy mor fuan â phosib.
Trafodwyd adroddiad Môn Fire, byddai'r clerc yn dilyn ar y pwyntiau a godwyd.

4.3 Sesiwn galw heibio – pwyntiau a godwyd:

- Giât Cymyran – cais i drigolion lleol gael mynediad yn y gaeaf pan oedd llai o dwristiaid a gwersyllwyr gwyllt o gwmpas.
- Pryderon am yr arogleuon drwg o'r brif system garthffosiaeth yn enwedig jyst tu draw i'r Neuadd y Pentref. Roedd y datblygiad newydd arfaethedig yn Llanfihangel yn Nhowyn yn debygol o ychwanegu at y broblem oni bai bod Dŵr Cymru yn cymryd camau i ddelio â'r mater. Nodwyd bod y mater wedi'i godi yn niwrnod agored Cadnant

(8 Medi) oedd wedi ei drefnu i drafod y cynnig i adeiladu'r ystâd newydd. O ganlyniad bu Dŵr Cymru yno yn gofalu am y system carthffosiaeth.

- Goryrru yng Nghaergeiliog – Roedd Cyng. Gwilym O. Jones eisoes wedi cysylltu â CSYM a dywedwyd wrtho y byddai marciau '20' yn cael eu rhoi ar y ffordd ar ddechrau'r cyfyngiad yn y pentref. Byddai arolygon hefyd yn cael eu cynnal i asesu maint y broblem a byddai'r canlyniadau'n cael eu hanfon at Gan Bwyll.
  Mae'r gofynion perthnasol ar gyfer gosod arwyddion cyflymder yn nodi bod un arwydd ar ochr y ffordd yn ddigonol ac yn cydymffurfio â'r safonau. Byddai gosod dau arwydd wrth fynd i mewn i Gaergeiliog o Fali yn golygu torri ar draws y ffordd i gael cyflenwad trydant. Y gobaith oedd y byddai cael marciau ffordd i atgyfnerthu dechrau'r cyfyngiad 20mya yn codi ymwybyddiaeth modurwyr o'r terfyn cyflymder newidiol.

4.4 Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion: dim.

5. Cynllunio - dim

5.1 LBC/2026/21 Tyddyn Du, Y Fali / Tyddyn Du, Valley
Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer newidiadau ac estyniad ynghyd ag adnewyddu mewnol – dim gwrthwynebiad.

5.2 VAR/2026/32 Pen y Bonc, Caergeiliog
Cais o dan Adran 73 am amrywio amod (01) (5 mlynedd) o'r caniatâd cynllunio sydd â'r cyfeirnod VAR/2021/74 (amrywio amod (01) (5 mlynedd) o'r cyfeirnod caniatâd cynllunio 32C180B [codi annedd] er mwyn caniatáu 5 mlynedd arall) er mwyn caniatáu 5 mlynedd ychwanegol i ddechrau'r datblygiad - dim gwrthwynebiad.

6. Materion Ariannol
Cyflwynodd yr SAC yr adroddiad ariannol ar gyfer y cyfnod o 1.7. 2026 i 31.8.2026 ynghyd â chysoniad banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.
Cyfrif Cyfredol £20220.03, Cyfrif Adnau £4177.27.

6.1 Cyfrifon 2026/27 – roedd y gwariant hyd yma yn ôl y disgwyl. Nodwyd bod biliau'r Scottish Power yn parhau i fod yn uchel oherwydd y tariff amrywiol safonol. Cytunwyd i drafod telerau newydd / chwilio am ddarparwr arall unwaith y bydd y mater gyda'r prif gyflenwad i neuadd y pentref wedi'i sortio. (cofnod 4.2 uchod).

6.2 Taliadau ers y cyfarfod diwethaf: nodwyd / cytunwyd.

Awst		Medi	
Shaun Wharton 30/7	200	Clerc	124.71
Môn Fire	210	Shaun Wharton	96.67
Clerc	364.39	Scottish Power	123.6
B.L.B Plumbing and Heating	222	Dŵr Cymru	200
Scottish Power	72.17		
G Palmer	500		

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbynnir mewn

perthynas â gwariant y cytunwyd arnynt yn flaenorol, gan nodi bod blaendal / taliad i lawr yn debygol ar gyfer prynu'r ffenestri.

7. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.

7.1 Biniau gwastraff cŵn Heol Minffordd – roedd yr ardal dan sylw ar dir preifat, hefyd nid oedd ymholiadau blaenorol gyda'r Tîm Rheoli Gwastraff (CSYM) wedi bod yn galonogol.

7.2 Cais am le chwarae ar gyfer Llanfihangel yn Nhowyn – nid oedd y Cyngor Cymuned o blaid ystyried hyn ar hyn o bryd.

7.3 Y Pwyllgor Safonau 18/06/2026 – Gall aelodau'r Pwyllgor fynychu Cyfarfodydd Cyngor Cymuned yn y dyfodol.

7.4 Un Llais Cymru - Bwletinau

8. Adroddiad Blynyddol – cytunwyd i dderbyn yr adroddiad fel y'i cynhyrchwyd gan y clerc**.**

9 Adroddiadau Aelodau

9.1 Gofynnodd Cyng. W.V. Owen am brynu ‘laptop’ i'r clerc – cytunwyd y dylai'r clerc brynu un addas cyn gynted â phosibl.

10. Cyfarfod Nesaf - 20 Hydref 2026

: